**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 15 Mai 2025 am 13:00 trwy Zoom**

**YN BRESENNOL**

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cynghorydd Gwynfor Owen
Dafydd Edwards, Trysorydd
Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod a'r Swyddog Monitro

Aelodau'r Cynllun
RhA Paul Kay, Cymdeithas y Swyddogion Tân
PSTC Stuart Millington, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân
Geraint Evans, cynrychiolydd y System Dyletswydd ar Alwad (gadawodd am 14:30)

Ymgynghorwyr
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Aled Williams, Cronfa Bensiwn Dyfed
Kim Jeal, Arweinydd Technegol Pensiynau Tân

Mynychwyr
George Jones, Cyfieithydd
Lisa Allington, Cynorthwyydd Gweithredol
Ffion Evans, Cynorthwyydd Gweithredol
PST Dawn Docx, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân

**1 YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau ar gyfer y Cynghorydd John Brynmor Hughes a Beccy Marfleet, Swyddog Pensiynau.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

**3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2025 fel cofnod gwir a chywir.

3.2 Cadarnhawyd bod y Cylch Gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Bwrdd Pensiwn Lleol (BPLl) wedi'i gyflwyno gerbron cyfarfod mis Ebrill Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a bod y newid i'r cworwm ar gyfer y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi'i gymeradwyo.

**4 DIWEDDARIAD YNGHYLCH MATERION CYFREITHIOL**

4.1 Cyflwynodd Kim Jeal yr adroddiad ynghylch materion cyfreithiol a oedd yn nodi'r gofynion a'r amserlenni statudol a bennwyd yn sgil y newidiadau i ddeddfwriaeth Cynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus, ac yn fwy penodol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Cyfeirid at y rhain fel arfer fel ymarferion rhwymedi pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2).

4.2 Yn ogystal, roedd y gwaith ar y Prosiect Dangosfwrdd Pensiynau, a oedd yn cael ei weithredu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), bellach yn cyflymu ac roedd Cynlluniau yn y Sector Tân wedi cael dyddiad cysylltu, sef mis Hydref 2025.

4.3 Nodwyd bod llai na 40 o gofnodion yn weddill o'r 443 mewn perthynas â Dyfarniad McCloud ar 15 Mai 2025.

4.4 Roedd y Rheoleiddiwr Pensiynau wedi gofyn am gadarnhad bod llythyr wedi'i anfon at bawb yr oedd diffyg cynhyrchu Datganiadau Gwasanaeth Adferadwy (RSS) wedi effeithio arnynt. Cafwyd cadarnhad o hynny, a phryd y byddai gweddill y datganiadau'n cael eu cyhoeddi. Roeddent wedi cael gwybod y byddai hyn, gyda phob bwriad da, yn cael ei gwblhau erbyn 30 Mehefin 2025. Felly, roedd y risg ar gyfer yr agwedd hon bellach yn symud o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i Gronfa Bensiwn Dyfed (y Gweinyddwr) gan fod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i darparu iddynt gan y Gwasanaeth a nhw oedd ar hyn o bryd yn wynebu problemau capasiti wrth ddelio â'r galw.

4.5 Cytunwyd y dylai'r Gwasanaeth gysylltu â'r Gweinyddwr i sicrhau bod datganiadau RSS yn cael eu cynhyrchu erbyn y terfyn amser diwygiedig, sef 30 Mehefin 2025.

4.6 Cytunwyd hefyd y dylid gofyn i'r Gweinyddwr ddarparu adroddiad manylach ar gywirdeb y data ar gyfer yr ymarfer dangosfwrdd i'r cyfarfod nesaf ar 17 Gorffennaf 2025.

4.7 Gofynnwyd a oedd yr aelodau yr effeithiwyd arnynt wedi cael manylion am y rhesymau pam na chawsant eu RSS a chadarnhawyd, ac eithrio disgresiynau Adran 29 a'r rhai sydd wedi ymddeol sydd â gwarchodaeth lawn, bod pob aelod arall wedi cael yr wybodaeth hon ynghyd â'r terfyn amser newydd sef 30 Mehefin 2025. Pe bai'r terfyn amser hwn hefyd yn llithro, byddai angen rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau eto, i esbonio pam nad oedd hyn wedi digwydd; fodd bynnag, disgwylid y byddai'r gwaith yn cael ei wneud erbyn y terfyn amser.

4.8 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi cynnwys yr adroddiad;**
- **ii) nodi'r rhwymedigaeth statudol a osodwyd ar Reolwr y Cynllun i sicrhau bod yr amserlenni hyn ar gyfer y tri phrosiect cenedlaethol yn cael eu bodloni; a**
- **iii) gofyn i PSTC MacArthur gysylltu ymhellach â Chronfa Bensiwn Dyfed i geisio eglurder a symud ymlaen yn gyflym â materion McCloud**
- **iv) Cronfa Bensiwn Dyfed i gynnwys rhagor o fanylion yn ei hadroddiad nesaf ar ansawdd y data ar gyfer yr adeg pan fydd y Dangosfwrdd Pensiynau yn mynd yn fyw.**

## 5 ADRODDIAD DIWEDDARU – CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

5.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur adroddiad diweddaru Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Pensiwn Lleol am faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân gan gynnwys aelodaeth a gwaith i fynd i'r afael â'r heriau cyfreithiol.

5.2 Cynghorwyd yr aelodau y byddai'r cofrestru awtomatig tair blynedd yn digwydd yr haf yma.

5.3 Gofynnwyd a oedd cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n gymwys i ymuno â'r cynllun nad oedd wedi gwneud hynny, a chadarnhawyd mai dim ond dau aelod o staff amser cyflawn sydd ddim yn cymryd rhan ac y byddent yn cael eu casglu eto yn y cofrestru awtomatig sydd ar ddod.

5.4 Cwestiynodd un Aelod a oedd isafswm oedran ar gyfer y cofrestru awtomatig, a chadarnhawyd mai 21 oed oedd yr isafswm; fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth yn cofrestru yn rhan o'r contract, sy'n golygu bod unrhyw ddechreuwyr newydd yn cael eu cofrestru waeth beth fo'u hoedran ac yna'n cael yr opsiwn i optio allan. Yna roedd y rheoliadau cofrestru awtomatig yn dod i rym o'r drydedd flwyddyn ymlaen.

5.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**6 ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR**

6.1 Cyflwynodd Aled Williams adroddiad diweddaru'r Gweinyddwr a oedd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd nifer o brosiectau a oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â darparu gwybodaeth am faterion perthnasol wrth weinyddu buddion y cynllun.

6.2 Cadarnhawyd bod y Gweinyddwr wedi rhoi gwybod am yr Awdurdod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn dilyn y terfyn amser ar 31 Mawrth 2025, gan na chyrhaeddwyd y terfyn amser hwnnw o ran cyhoeddi datganiadau RSS.

6.3 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd torri'r rhwymedi yn sefyllfa ddelfrydol, ond nododd yr heriau ar draws y sector. Nododd y Cadeirydd fod gan y gweinyddwr gynlluniau ar waith i sicrhau mwy o staff i gynyddu'r capasiti i ymdrin â'r gwaith sydd wedi cronni gan fod llawer iawn o waith yn gysylltiedig â chynhyrchu'r datganiadau RSS, yn enwedig ar gyfer Aelodau a warchodir gan dapr neu rai nad ydynt yn cael eu gwarchod, gan fod yn rhaid cynnal eu cyfrifiadau â llaw.

6.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**7 Y GOFRESTR RISG**

7.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur ddiweddariad ar y Gofrestr Risg mewn perthynas â Chydymffurfio Rheoleiddiol a oedd yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y trefniadau rheoli risg yn y maes hwn.

7.2 Trafodwyd y sgoriau risg penodol a chytunodd yr holl Aelodau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gywir.

7.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r asesiad o'r risgiau o ran cydymffurfio rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân.**

## 8 Y BWRDD CYNGHORI AR Y CYNLLUN - YMGYNGHORIAD LLC AR GYFRADDAU CYFRANIADAU GWEITHWYR

8.1 Rhoddodd Kim Jeal ddiweddariad llafar i'r Aelodau ar faterion a drafodwyd gan y Bwrdd Cynghori ar y Cynllun ers mis Hydref.

8.2 Nodwyd nad oedd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Cynghori wedi'u paratoi eto. Roedd Cadeirydd newydd wedi'i ethol ar gyfer y dyfodol, Mike Connolly, a byddai yn y swydd ar gyfer y cyfarfodydd sydd i ddod.

8.3 Roedd y rhan fwyaf o'r cyfarfod yn ymwneud â'r ymateb i'r ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i gyfraddau cyfraniadau gweithwyr ac edrych ar sut y gallai pethau fod wrth symud ymlaen. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 4 Chwefror 2025 a byddai ymateb ffurfiol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru maes o law.

8.4 Roedd y canrannau posibl i gyd-fynd â'r haenau yn seiliedig ar rolau wedi cael eu trafod, ac roedd rhai o aelodau'r Bwrdd Cynghori yn teimlo bod rhai o'r canrannau a oedd yn cael eu hawgrymu yn parhau i fod yn annheg. Roedd Steve Pomeroy o LlC wedi cytuno i fynd at GAD a gofyn a ellid chwilio am opsiynau amgen i'w hystyried. Roedd hyn bellach wedi digwydd ac roedd tri opsiwn amgen wedi'u darparu.

8.5 O'r tri opsiwn a ddarparwyd, roedd yn ymddangos fel petai Opsiwn 1 yn datrys y materion a godwyd ac roedd disgwyl cymeradwyaeth ffurfiol gan Fwrdd Cynghori Cymru.

8.6 Gofynnwyd a ellid cymhwyso'r cyfraddau cyfraniadau yn ôl-weithredol a chadarnhawyd y gellid gwneud hyn, ond byddai hyn yn anodd iawn gan y byddai angen gwneud yr holl gyfrifiadau â llaw ac nid oedd y capasiti ar gael i wneud hyn ynghyd â'r gwaith ar O'Brien a McCloud. Fodd bynnag, dylai'r gwahaniaethau i'r enillion fod yn fychan iawn.

8.7 Roedd y tri Gwasanaeth wedi darparu diweddariad ac wedi cadarnhau eu bod i gyd yn wynebu'r un math o faterion mewn perthynas â darparu gwybodaeth yn ymwneud â dyfarniadau O'Brien a McCloud.

8.8 Roedd y Gwasanaethau ar wahanol gamau mewn perthynas â diweddariadau Matthews 2, ond roedd pob Gwasanaeth yn ymwybodol o'r estyniad arfaethedig i'r terfyn amser i Orffennaf 2026.

8.9 Ni fyddai angen mwyach i Aelodau Awdurdodau Tân fod yn aelodau o Fwrdd Cynghori Cymru; yn hytrach, uwch swyddogion o bob Gwasanaeth fyddai cynrychiolwyr y cyflogwyr.

**8.10 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys y diweddariad llafar.**

## 9 DATGANIAD POLISI DISGRESIYNOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

9.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur Ddatganiad Polisi Disgresiynol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr angen i Reolwr y Cynllun, yr Awdurdod, gynhyrchu Datganiad Polisi Disgresiynol Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

9.2 Roedd hefyd angen cymeradwyo'r penderfyniadau o fewn Datganiad Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, gan gynnwys y cynnig y byddai penderfyniadau yn cael eu dirprwyo o ddydd i ddydd i swyddogion y Gwasanaeth ar ran rheolwr y cynllun.

9.3 Bu'r Aelodau'n amlygu a thrafod y disgresiynau allweddol ac roeddent o'r farn ei bod yn ddogfen ddefnyddiol ac yn enghraifft dda o'r modd yr oedd gweithio ar y cyd â De Cymru wedi arwain at gysondeb â'r disgresiynau. Cwestiynwyd a fyddai modd cydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y dyfodol i symleiddio'r broses ymhellach a chytunwyd y dylai PSTC MacArthur gysylltu â nhw i archwilio hyn ymhellach.

9.4 Gofynnwyd a ellid cyflwyno'r Polisi Datrys Anghydfodau Mewnol gerbron cyfarfod yn y dyfodol er mwyn i'r Aelodau ymgyfarwyddo ag ef a chytunwyd y byddai'n cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf ac y byddai sesiwn hyfforddi fer yn cael ei chyflwyno tua'r un pryd.

9.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r penderfyniadau o fewn Datganiad Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân gan gynnwys, lle bo'n briodol, dirprwyo i swyddogion y Gwasanaeth; a**
**ii) chysylltu â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i archwilio'r posibilrwydd o gydweithio yn y dyfodol mewn perthynas â rheoli Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.**
**iii) I bolisi a phroses Datrys Anghydfodau Mewnol gael eu cynnwys ar yr agenda nesaf**

## 10 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD PENSIWN LLEOL 2024-25

10.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol a oedd yn rhoi manylion y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

10.2 Nodwyd bod y nifer angenrheidiol o gyfarfodydd wedi'u cynnal trwy gydol 2024-25, bod yr aelodaeth gywir wedi bod ar waith ac na fu unrhyw ddatganiadau o fuddiant i ymdrin â hwy.

10.3 Cytunwyd i ychwanegu'r Polisi Datrys Anghydfodau Mewnol at y rhaglen waith ar gyfer y BPLl.

10.4 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2024/25 y Bwrdd Pensiwn Lleol i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod yn rhinwedd ei swydd fel Rheolwr y Cynllun; ac**
- **ii) ychwanegu'r Polisi Datrys Anghydfodau Mewnol at y rhaglen waith ar gyfer y Bwrdd Pensiwn Lleol.**

## 11 MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO AT SYLW’R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

11.1 Nid oedd unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at sylw’r Awdurdod.

## 12 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

12.1 Cadarnhawyd y byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 17 Gorffennaf 2025 am 09:30.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:35